

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Ebrill, 2017, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Carys H. Evans (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Carys E. Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr David Brunelli, S.R. Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts,
Michael Strain, Harry Richards

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Llinos Jones, Gillian Walker, Glenys Williams

105. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

106. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Y Cyngorydd Michael Strain fuddiant personol yng nghais cynllunio cofnod 108(b) a bu iddo ymadael a'r ystafell yn ystod y drafodaeth a phleidleisio.

107. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MAWRTH, 2017**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Mawrth, 2017.

MATERION YN CODI

a) Eitem 98 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (a) Adolygiad Etholiadol

Cyflwynwyd atebiad Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd yn dilyn i'r Cyngor anfon sylwadau ymlaen ynglyn ag adolygiad etholiadol. 'Roedd y Swyddog yn "falch o dderbyn sylwadau o bersbectif lleol" ac aeth ymlaen i ddweud yr hoffai "bwysleisio ei fod yn bwysig iawn eich bod hefyd yn anfon y sylwadau hyn at y Comisiwn Ffiniau eu hunain. Adolygiad y Comisiwn yw hwn gyda'r Cyngor hwn, ac eraill, yn ceisio dylanwadu ar y math o gynigion a ddaw gerbron ganddynt."

Penderfynwyd anfon y sylwadau ymlaen i'r Comisiwn Ffiniau.

b) Eitem 89 Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) Cwrs (sefydlu wefan i'r Cyngor)

Adroddodd Y Cynghorydd Michael Strain nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ar benodi Swyddog i sefydlu wefan ar gyfer gyda Llanw Llyn, felly nad oedd mewn sefyllfa i adrodd ymhellach ar y mater ar y pryd.

1) Penderfynwyd gohirio am y tro.

c) Eitem 102 – Barbio Tiroedd y Cyngor

Yn dilyn derbyn y pris isaf am farbio tiroedd y Cyngor/llwybrau cyhoeddus, o eiddo Mr. J.A. Pozzi yn y cyfarfod diwethaf, sylwodd y Clarc nad oedd yr Ymgwymerwr wedi tendro am yr hyn oedd y gofyn. Yn dilyn gair a'r Cadeirydd gofynnwyd i'r Ymgwymerwr anfon pris am y gwaith fel a nodwyd yn y ffurflen tendro.

Derbyniwyd y tendr diwygiedig ac yn dilyn ymgynghoriad cyd-rhwng y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Michael Strain, sylwyd fod y pris hwn yn sylweddol is na'r pris arall a dderbyniwyd. Yn wyneb hyn penderfynwyd derbyn y pris diwygiedig o eiddo Mr. J.A. Pozzi.

Penderfynwyd cadarnhau'r camau gymerwyd a rhoi sel bendith ar bris Mr. J.A. Pozzi o :

- 1.** Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2017, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £510 + TAW.**
- 2.** Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2017); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2017, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £900 + TAW.**
- 3.** Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15.00 yr awr + TAW.**

ch) Eitem 104 – Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd S.R. Jones ar gyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru, lle bu iddo ef a'r Cynghorydd Harry Richards fynychu ar 22ain Mawrth, 2017, ym Mhwlheli. (Copi o'r adroddiad yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol).

Yn dilyn y cyfarfod bu i'r Clarc anfon e-bost at Luned Evans, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru o Un Llais Cymru, yn gofyn beth oedd yr ymateb dderbyniodd yn dilyn gwneud ymholiadau pam fod y Cyngor wedi derbyn bil mor uchel. Dywedodd Luned Evans nad oedd wedi cael cyfle i drafod y mater gyda'r swyddogion perthnasol ond byddai'n gwneud hynny mor fuan a bo modd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac aros am wybodaeth pellach gan Luned Evans.

Diolchwyd i'r Cynghorydd S.R. Jones am ei adroddiad ac iddo ef a'r Cynghorydd Harry Richards am fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

108. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd :

a) Cais C17/0267/32/LL – adeiladu llwyfan bren a chodi ffens yn Nhy Newydd, Bryncroes.

b) Cais C17/0276/32/LL – adeiladu estyniadau yn Llain, Bryncroes.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

109. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Adrannau perthnasol yng Nghyngor Gwynedd:

Llanastr yn cael ei adael ar ôl yn dilyn y lori ailgylchu.

Twll dwfn o dan mynedfa i Bwlch Groes Uchaf, Llaniestyn.

Yn dilyn i'r Cadeirydd gael cwyn fod gyrru ar y ffordd ger Tai'r Cyngor Tre'r Ddol, Sarn Mellteyrn, gwnaed ymholiadau pryd fyddai'r arwyddion cyfyngu ar gyflymdra yn dod yn weithredol. Derbyniwyd ymateb Cydlynnydd Prosesau Statudol, Cyngor Gwynedd, fod y mater wedi cael "ei anfon at ein hadran Gyfreithiol gyda chyfarwyddiadau i fwrw ymlaen a'r ymgynghoriad cyhoeddus. Dylai hysbysiad ymddangos yn y 'Caernarfon & Denbigh' yn y 3-4 wythnos nesaf." (dyddiad yr e-bost 6ed Ebrill, 2017).

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

110. **MATERION IECHYD**

Derbyniwyd llythyr o gwyn gan Mr. a Mrs. Thomas, Bronllwyd Fawr, Botwnnog, yn dilyn gwaeledd diweddar Mrs. Thomas.

Penderfynwyd anfon y mater ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned gyda chopi i'r Gwasanaeth Ambiwylans, Dr. O.G. Morris ym Meddygfa Rhydbach a'r Gweinidog dros lechyd, Vaughan Gething AC.

111. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol.

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:

Ambiwylans Awyr Cymru	£100
BOBATH	£ 50

Cyngor ar Bopeth	£ 30	
Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017		£100
Eglwys St. Mair Bryn croes – cronfa'r fynwent	£125	
O Ddrws i Ddrws	£ 50	

112. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau isod:

Aelodaeth Un Llais Cymru 2017/18	£135.00
J.D. Roberts – Archwiliwr Mewnol	£ 69.00 (Archwilio'r cyfrifon 2015/16)
Cwmni Yswiriant Zurich	£678.81

113. **AELODAETH Y CYNGOR**

Adroddwyd fod y rhai a ganlyn wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad i weithredu ar y Cyngor:

Botwnnog – Carys H. Evans, Glyn Roberts

Sarn Mellteyrn – Carys E. Williams, Harry Richards

Bryn croes – Ifor Owen, Glenys Williams

Yn wyneb hyn, mae pum sedd wag, sef dwy ym Motwnnog, dwy ym Mryn croes ac un yn Sarn Mellteyrn.

Gwnaed ymholiadau a'r Swyddog Etholiadol a dywedodd fod yn rhaid i'r Cyngor roddi rhybuddion i fyny i wahodd aelodau o'r cyhoedd i ddatgan diddordeb mewn un o'r seddau hyn. Derbyniwyd rhybuddion Saesneg a Chymraeg ac yn dilyn trafodaeth derbyniodd y Clarc gyfarwyddiadau gan y Cyngor hwn i roi rhybudd Cymraeg i fyny yn unig ym Motwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryn croes.

Yn wyneb nad oedd yr amserlen yn caniatau i wahodd ceisiadau am un o'r seddau yma awgrymodd y Swyddog ein bod yn gohirio'r Cyfarfod Blyn yddol/Cyngor am wythnos ymhellach, sef ar 15fed Mai, fel y gellir rhoi cyfle i'r cyhoedd ymateb.

Bydd y cyfarfod i'r 15fed Mai yn cael ei gynnal gyda'r chwech aelod sydd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad ac yna bydd gan y Cyngor hwnnw'r hawl i gyfethol aelodau i lenwi'r pum sedd wag. Gwahoddir y rhai a fydd wedi eu cyfethol i fynychu cyfarfod mis Mehefin.

Derbyniwyd rhybudd o ymddiswyddiad gan Gillian Walker a phenderfynwyd anfon gair o ddiolch ati am ei gwasanaeth i'r Cyngor.

Datganodd Y Cynghorwyr David Brunelli a S.R. Jones nad oeddynt yn dymuno gweithredu fel aelod o'r Cyngor mwyach – diolchwyd iddynt hwythau am eu gwasanaeth.

Datganodd Y Cynghorydd Michael Strain ei fod wedi llwyr anghofio rhoi ei bapur enwebu i fewn a'i fod yn dymuno cael ei ystyried am gyfnod pellach.

